wavehill

Social and economic research

Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

Gwerthusiad o Cymru Fyd-eang (III)

Gwerthusiad o'r cam cychwynnol

Crynodeb Gweithredol

Taith

Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31-34 High Street, Bryste, BS1 2AW
- Swyddfa Gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, Llundain, N4 3EY

Manylion cysylltu

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth

www.wavehill.com

https://twitter.com/wavehilltweets

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae hawlfraint ar yr adroddiad hwn. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad

Ioan Teifi, Eddie Knight, Şimal Altunsoy, Paula Gallagher, ac Andy Parkinson

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn at Ioan Teifi drwy ioan.teifi@wavehill.com yn y lle cyntaf

Dyddiad y ddogfen: Mawrth 2024

Fersiwn: Terfynol

Manylion y cleient

Dr Elid Morris, Pennaeth Gweithredol, Taith office@taith.wales



Cyflwyniad

Mae Cymru Fyd-eang III yn cynnig dull strategol a chydweithredol ar gyfer gweithredu rhyngwladol AU ac AB yng Nghymru. Caiff y rhaglen ei chynnal gan Brifysgolion Cymru, ac mae'n adeiladu ar ddau gam blaenorol ar ôl ei lansio yn gyntaf yn 2015 fel peilot ar raddfa fach gan Bartneriaeth Cymru Fyd-eang (a oedd yn cynnwys British Council Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cymru). Mae'r rhaglen yn cydweithio i hybu proffil rhyngwladol Cymru, creu rhwydweithiau a phartneriaethau a chefnogi mwy o recriwtio rhyngwladol, gan dargedu pedair marchnad â blaenoriaeth, sef: Gogledd America, India, Fietnam ac Ewrop.

Mae'r trydydd cam hwn wedi'i ariannu drwy Taith, sef rhaglen Cymru gyfan gwerth £65 miliwn sy'n ymwneud yn bennaf ag ariannu sefydliadau allanol i wneud gweithgarwch cyfnewid rhyngwladol. Gan adeiladu ar gamau blaenorol, mae Cymru Fyd-eang III yn gynnydd amlwg mewn buddsoddiad ac mae iddo bedwar amcan:

1. Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dod o farchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth.
2. Cynnal a thyfu partneriaethau mewn marchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth.
3. Cynhyrchu enillion allforio ychwanegol o farchnadoedd â blaenoriaeth.
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o brifysgolion a cholegau AB Cymru a'u henw da mewn marchnadoedd â blaenoriaeth.

Comisiynwyd Wavehill ym mis Awst 2023 i gynnal gwerthusiad cam cychwynnol o Cymru Fyd-eang III fel rhan o werthusiad trosfwaol o raglen Taith. Datblygwyd adroddiad penodol ar gyfer Cymru Fyd-eang III er mwyn sefydlu theori newid ar gyfer y rhaglen, datblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer camau dilynol, ynghyd â rhoi asesiad cychwynnol o berfformiad cyflawni. Gan ddatblygu o hynny, bydd gwerthusiad terfynol Cam 2 yn cael ei gynnal erbyn mis Hydref 2025 i asesu a yw Cymru Fyd-eang III wedi cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a fwriedir.

Tystiolaeth ategol

Mae Cymru Fyd-eang III yn cyfrannu at ystod o flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â Strategaeth Ryngwladol Cymru sydd â thair uchelgais graidd: codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, cynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad, a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae'r olaf yn cysylltu ag un o'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, tra bod cysylltiadau clir â chreu Cymru lewyrchus hefyd.

Mae synergeddau cryf â'r Cwricwlwm i Gymru lle mae cefnogi dysgwyr i ddod yn 'ddinasyddion moesegol a gwybodus o Gymru a'r byd' yn un o'r prif ddibenion.

Mae ein hadolygiad o'r llenyddiaeth ymchwil ehangach yn dangos bod addysg ryngwladol wedi cyfrannu'n fawr iawn at amcanion pŵer meddal a'i bod wedi datblygu i fod yn rhan bwysig o ddiplomyddiaeth gyhoeddus sydd wedi esgor ar gryn fanteision. Gall rhaglenni fel Cymru Fyd-eang III gael effeithiau pŵer meddal gwerthfawr mewn cysylltiad ag addysg trwy rôl AB ac AU yn cefnogi allforio a masnach ryngwladol (yn bennaf trwy nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru). Wedi dweud hynny, cafwyd canlyniadau cymysg yn yr ymchwil a gomisiynwyd gan y British Council i bŵer meddal Cymru – er bod Cymru wedi perfformio'n gymharol dda mewn rhai meysydd, fe'i gosodwyd yn y seithfed safle allan o ddeg o ran addysg. Ymhellach, mae data HESA yn datgelu bod sector AU Cymru yn gyson wedi cael llai o fyfyrwyr rhyngwladol o gymharu â gweddill y DU fel cyfran o'r holl fyfyrwyr sy'n astudio yma.

Mae buddion hyrwyddo myfyrwyr rhyngwladol yn mynd y tu hwnt i gyfraniadau economaidd yn unig. Gellir defnyddio Partneriaethau Addysg Byd-eang hefyd fel arf ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau diplomyddol rhwng gwledydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys mentrau sy'n hyrwyddo prosiectau ymchwil ar y cyd, partneriaethau academaidd, cydweithredu rhwng prifysgolion, a darparu cymorth ar gyfer seilwaith, hyfforddiant athrawon a datblygu'r cwricwlwm. Gallant hefyd helpu i feithrin cydberthnasoedd cadarnhaol, gwella canlyniadau addysgol, hyrwyddo datblygiad economaidd, meithrin dealltwriaeth ddiwylliannol, a chreu cyfleoedd i bobl o wahanol wledydd ddysgu oddi wrth ei gilydd. O'i ddefnyddio'n strategol, gall fod yn arf pwerus ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau diplomyddol a sicrhau buddiannau cenedlaethol.

Adolygiad Monitro

Gwneir cyfres o 17 o argymhellion yn ein hadolygiad manwl ynghylch y newidiadau y dylid eu gwneud i'r prosesau monitro presennol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn ddau bwynt:

- Dylid sicrhau bod offer casglu data wedi'u cynllunio i gefnogi gwerthuso'r rhaglen

Nododd yr adolygiad fod nifer o'r offer storio data yn coladu allbynnau / cynnydd DPA y rhaglen yn ogystal â'i gwybodaeth ariannol a'u bod wedi'u cynllunio ar gyfer sawl diben gwahanol sy'n golygu nad oedd ystyriaeth wedi'i rhoi o reidrwydd i ba mor hawdd oedd cyrchu neu fesur allbynnau prosiect. Byddai'n ddefnyddiol gwahanu'r swyddogaethau hyn drwy greu offer/systemau ar wahân, symlach a phwrpasol ar gyfer pob un.

- Dylid gwella cysondeb cofnodi data a'i aliniad â'r Theori Newid

Mewn rhai meysydd, mae diffyg cysondeb ac aliniad â thargedau'r rhaglen a'r Theori Newid yn effeithio ar ansawdd peth o'r data a gasglwyd. Mae amrywiadau wrth ddehongli targedau a thystiolaeth ar gyfer rhai dangosyddion yn golygu bod y rhaglen mewn perygl o gyfrif allbynnau nad ydynt mewn gwirionedd yn cyfrannu at dargedau. Dylid sefydlu diffiniadau mwy manwl gywir i sicrhau casglu data digon manwl o ansawdd uchel. Ynghyd â hyn, dylid cael canllawiau clir i gyd-fynd â phob offeryn a phroses casglu data, a dylid defnyddio terminoleg gyson ar draws dogfennau i sicrhau eglurder.

Theori Newid

Datblygwyd Theori Newid ar gyfer Cymru Fyd-eang III er mwyn cefnogi creu'r Fframwaith Gwerthuso. Drwy hyn gellir crynhoi'r hyn y mae'r rhaglen yn ceisio'i gyflawni fel nod terfynol, pa fath o ganlyniadau fyddai eu hangen yn y cyfamser i gyrraedd y nod hwnnw, ac felly pa ddangosyddion y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant.

Rhesymeg				
• Hybu proffil rhyngwladol Cymru, adeiladu rhwydweithiau a phartneriaethau a chefnogi mwy o recriwtio rhyngwladol. Mae hyn yn ymateb i fanteision cael sefydliadau sectorau AU ac AB yng Nghymru i gydweithio i hyrwyddo buddiannau'r sectorau dramor. Mae ei angen i gynhyrchu enillion allforio uwch i'r sectorau hyn sydd wedi bod yn gweithredu mewn cyfnod economaidd heriol. Y bwriad hefyd yw creu buddion pŵer meddal i Gymru drwy godi statws y genedl mewn marchnadoedd allweddol sydd â blaenoriaeth.				
Mewnbynnau ac Adnoddau				
• £10,280,000 o gyllid a thîm o 17 o staff • Seilwaith, partneriaethau a systemau sy'n bodoli eisoes • Mewnbwn gan Golegau Cymru, y British Council, Llywodraeth Cymru, prifysgolion a cholegau sydd ar Fwrdd Cymru Fyd-eang				
Gweithgareddau	**Allbynnau**	**Canlyniadau dros-dro – 1**	**Canlyniadau dros-dro – 2**	**Effeithiau cyffredinol**
• Llinynnau 1-4 – Marchnad â blaenoriaeth (Ymchwil a chwmpasu'r farchnad, Gweithgarwch partneriaeth, Gweithgareddau recriwtio myfyrwyr, Cyllid ar gyfer prosiectau	• Nifer y digwyddiadau a gwblhawyd • Nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran • Nifer Dylanwadwyr Haen 1 a 2 y cyfarfuwyd â nhw • Nifer y partneriaethau posibl newydd sydd wedi'u pennu • Nifer y partneriaethau sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u cefnogi • Nifer y cysylltiadau sy'n weithredol • Nifer argraffiadau Astudio yng Nghymru, ymweliadau â'r wefan, sawl gwaith y caiff ei fideos eu gwylio a diddordebau yn codi o ymgyrch farchnata ddigidol.	• Syniadau newydd, ymchwil ac arloesedd • Cysylltiadau proffesiynol ac academaidd • Nifer y partneriaethau ffurfiol newydd wedi'u broceru / hwyluso • Gwell recriwtio ar fyfyrwyr o farchnadoedd â blaenoriaeth • % y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cofio ymgysylltu ag Astudio yng Nghymru	• Y gallu i gymryd rhan mewn rhaglenni rhyngwladol • Gwell addysgu a dysgu • Enw da a statws rhyngwladol • Cyflawni yn erbyn cenhadaeth ddinesig • Mwy o enillion allforio • Partneriaethau, ymgysylltu â systemau,	• Sefydliadau AU ac AB yn datblygu cynaliadwyedd ariannol cryfach • Gwella proffil i Gymru yn fyd-eang • Cynnig addysgol gwell yng Nghymru

ymchwil ac allforio addysgol) • Llinyn 5 – Astudio yng Nghymru • Llinyn 6 – Ysgoloriaethau • Llinyn 7 – Gweithrediadau.	• Nifer y postiadau/erthyglau, argraffiadau ac ymgysylltiadau, ymweliadau â gwefannau cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu a nifer dilynwyr newydd proffiliau/tudalennau Astudio yng Nghymru a Chymru Fyd-eang • Nifer y ceisiadau am ysgoloriaeth a gyflwynwyd a'r dyfarniadau a wnaed • Cyllid a ddaw trwy bartneriaethau, ymgysylltu â systemau, ysgoloriaethau ac ati.	• Nifer y cysylltiadau newydd system-i-system a sicrhawyd.	ysgoloriaethau etc yn helpu i gael gafael ar gyllid ychwanegol • Prosiectau sbarduno a ariannwyd yn datblygu yn wasanaethau / cynnyrch tymor hwy	• Cymru Fyd-eang yn ymwreiddio yn y dirwedd addysgol.

Rhagdybiaethau	Rhwystrau	Hwyluswyr
• Bod blaenoriaethau Cymru Fyd-eang yn cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadau AU ac AB ac yn ychwanegu gwerth at eu gweithgarwch (e.e. wrth recriwtio myfyrwyr rhyngwladol). • Bod y marchnadoedd â blaenoriaeth a dargedwyd eisiau ymgysylltu â sectorau AU ac AB Cymru neu y gellir eu perswadio i wneud hynny. • Bod gweithgarwch Cymru Fyd-eang yn adlewyrchiad cadarnhaol o Gymru, gan arwain at fuddion o ran enw da a chanlyniadau pŵer meddal. • Y gall ymgyrchoedd Astudio yng Nghymru wneud gwahaniaeth wrth ddenu myfyrwyr rhyngwladol. • Bod buddiolwyr yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd yn y sefydliad ac yn rhannu'r dysgu ag eraill.	• Methu â bod er budd y sectorau AU ac AB a gwahanol sefydliadau yn y sectorau hynny. • Yr argraff fod y rhaglen wedi'i dominyddu gan fuddiannau AU. • Risg o ddyblygu – o ran gweithgarwch recriwtio'r prifysgolion eu hunain, ymgyrch Study UK, a'r gwaith ymgysylltu rhyngwladol a wneir gan y British Council. • Potensial i'r uchod arwain at negeseuon cymysg a thrwy hynny gael effaith andwyol ar ymgyrchoedd ei gilydd a gwaith ymgysylltu. • Methu ag ymgorffori gwybodaeth yn y sefydliadau a methu â'i lledaenu i'r sector yn ehangach er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Gymru o'r gweithgarwch ymgysylltu rhyngwladol.	• Ymgysylltu effeithiol â chynrychiolwyr AU ac AB Cymru i gael eu mewnbwn er mwyn cyflwyno rhaglen sy'n cynrychioli eu buddiannau mor effeithiol â phosibl. • Cydweithio agos â rhanddeiliaid allweddol trwy bartneriaeth Cymru Fyd-eang a chael cysylltiadau uniongyrchol i sicrhau bod y gwaith yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at weithgarwch arall. • Annog / mandadu buddiolwyr i gynhyrchu allbynnau a rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill yn y sector.

Fframwaith Gwerthuso

Mae'r Fframwaith isod yn dangos sut yr eir i'r afael â phob cwestiwn ac amcan gwerthuso yng nghamau dilynol y gwerthusiad, a gwneir hyn drwy gyflwyno'r dangosyddion i'w defnyddio a sut y bydd data perthnasol yn cael ei gasglu.

Amcan y gwerthusiad	Is-gwestiynau	Dangosyddion	Dulliau / Ffynonellau Data
Prosesau gweithredu a rheoli	• A yw'r prosesau gweithredu a rheoli yn effeithiol? Sut y gellid eu gwella? • I ba raddau, a sut, y mae Cymru Fyd-eang (Cam 3) yn gweithio ac yn cael ei chynnal yn ôl y bwriad, a pha wersi gweithredu a ddysgwyd? • Pa mor effeithiol fu integreiddio AB? • A yw'r systemau monitro yn cynnig digon o gymorth ar gyfer cynnal a gwerthuso prosiectau? Sut y gellir eu gwella? • A yw gweithgareddau cyfathrebu yn effeithiol? • A yw staffio'r prosiect yn effeithiol ac yn cael adnoddau priodol?	• Cynnydd yn erbyn amcanion a chanlyniadau'r rhaglen • Bodlonrwydd staff â'r prosesau gweithredu a rheoli (e.e. digon o adnoddau, effeithlonrwydd systemau etc.) • Bodlonrwydd rhanddeiliaid â'r prosesau gweithredu a rheoli • Bodlonrwydd buddiolwyr / partneriaid â'u profiad â Cymru Fyd-eang III • Buddiolwyr / partneriaid yr oedd eu profiad â CFIII yn bodloni/yn rhagori ar ddisgwyliadau.	• Adolygu dogfennau'r rhaglen • Adolygu'r cynnydd tuag at gerrig milltir a chyflawni amcanion • Adolygu gwybodaeth rheoli'r rhaglen • Cyfweliadau â rhanddeiliaid • Cyfweliadau â'r tîm gweithredu a rheoli • Ymgynghoriadau â derbynwyr grantiau / partneriaid.

Amcan y gwerthusiad	Is-gwestiynau	Dangosyddion	Dulliau / Ffynonellau Data
Allbynnau	• A yw'r targedau a'r allbynnau a ddymunwyd wedi'u cyflawni? Pa rwystrau a hwyluswyr sydd wedi effeithio ar gyflawni'r rhain? • Pa mor effeithiol yw Cymru Fyd-eang (Cam 3) o ran cefnogi, sefydlu a datblygu partneriaethau addysg ac ymchwil rhyngwladol yn ei marchnadoedd â blaenoriaeth? • Pa mor effeithiol yw Cymru Fyd-eang (Cam 3) o ran cefnogi recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn benodol? • A yw brand Astudio yng Nghymru a'r gweithgarwch marchnata cysylltiedig wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi cynnydd ym mhroffil AU ac AB Cymru mewn marchnadoedd â blaenoriaeth? • A yw ysgoloriaethau Cymru Fyd-eang (Cam 3) wedi cefnogi proffil uwch i'r sector AU mewn marchnadoedd â blaenoriaeth? • A yw'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau mewnbwn a chefnogaeth gan y sectorau AU ac AB yng Nghymru a chan sefydliadau partner Cymru Fyd-eang? Os nad yw, pam ddim a beth arall y gellid ei wneud i gyflawni hyn?	• Prosiectau, adroddiadau, mentrau, a digwyddiadau wedi'u harwain, eu trefnu, eu mynychu neu eu noddi gan Gymru Fyd-eang ○ Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd ○ Nifer y cyfranogwyr oedd yn rhan ○ Hwyluso sector i gymryd rhan • Graddfa'r ymgysylltu â rhwydweithiau dylanwadwyr, gan gynnwys cyn-fyfyrwyr ○ Nifer Dylanwadwyr Haen 1 y cyfarfuwyd â nhw ○ Nifer Dylanwadwyr Haen 2 y cyfarfuwyd â nhw • Partneriaethau wedi'u broceru, eu hwyluso neu eu cefnogi trwy Gymru Fyd-eang ○ Nifer y partneriaethau ffurfiol newydd wedi'u broceru/hwyluso ○ Nifer y partneriaethau posibl newydd wedi'u cwmpasu ○ Nifer y partneriaethau sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u cefnogi • Cysylltiadau system-i-system wedi'u broceru, hwyluso neu eu cefnogi drwy Cymru Fyd-eang ○ Nifer y cysylltiadau newydd a wnaed ○ Nifer y cysylltiadau sy'n weithredol • Ymgyrchoedd marchnata digidol Astudio yng Nghymru (SiW) ○ Nifer argraffiadau SiW ○ Nifer ymweliadau â gwefan SiW ○ Nifer o weithiau y caiff fideos SiW eu gwylio ○ Nifer yr ymholiadau am SiW	• Adolygu gwybodaeth rheoli'r rhaglen • Cyfweliadau â rhanddeiliaid • Cyfweliadau â derbynwyr grant.

Amcan y gwerthusiad	Is-gwestiynau	Dangosyddion	Dulliau / Ffynonellau Data

		• Ysgoloriaethau
		  ○ Nifer y ceisiadau a gyflwynwyd
		  ○ Nifer y dyfarniadau a wnaed
		• Cael gafael ar Gyllid Ychwanegol
		  ○ Partneriaethau, ymgysylltu â systemau, ysgoloriaethau etc. yn arwain at gyllid	

Canlyniadau ac effaith	• Beth fu profiadau sefydliadau AU/AB Cymru yn ogystal â sefydliadau rhyngwladol/allanol sy'n cymryd rhan yn Cymru Fyd-eang (Cam 3)? • Pa ganlyniadau gafodd unigolion (myfyrwyr) sy'n cymryd rhan yn CF (Cam 3) e.e. trwy dderbyn ysgoloriaeth? • Pa ganlyniadau gafodd sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach? • I ba raddau y gellir priodoli effeithiau i Gymru Fyd-eang? • A oes unrhyw dystiolaeth o ddifuddiant, colledion neu ddadleoli? • A oedd unrhyw fanteision neu ganlyniadau ychwanegol/atodol anfwriadol wedi deillio o weithgarwch Cymru Fyd-eang (Cam 3)? • Beth yw cost/budd y gweithgareddau a gynhelir gan Gymru Fyd-eang (Cam 3)?	**Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol mewn marchnadoedd â blaenoriaeth** • Nifer y myfyrwyr rhyngwladol o farchnadoedd â blaenoriaeth sy'n gwneud cais i sefydliadau AB/AU yng Nghymru • Nifer y myfyrwyr rhyngwladol o farchnadoedd â blaenoriaeth sy'n cofrestru â sefydliadau AB/AU yng Nghymru • Nifer ymweliadau â gwefan Astudio yng Nghymru a'r nifer sy'n clicio ymlaen i wefan prifysgolion / colegau unigol (h.y. trosiadau llwyddiannus) • % y darpar fyfyrwyr / myfyrwyr sydd newydd gofrestru a holwyd o farchnadoedd â blaenoriaeth sy'n gwybod am wefan Astudio yng Nghymru / wedi'i defnyddio • Cynnydd yn nifer y darpar fyfyrwyr sy'n gyfarwydd â phrifysgolion Cymru ymhlith y rhai a holwyd o'r marchnadoedd blaenoriaeth • % y myfyrwyr newydd gofrestru a holwyd o farchnadoedd â blaenoriaeth yn dweud bod Astudio yng	• Data myfyrwyr HESA • Cyfweliadau â rhanddeiliaid prifysgolion • Cyfweliadau â'r rhai a gafodd Ysgoloriaethau • Dadansoddi data Astudio yng Nghymru • Ymchwil wedi'i gomisiynu sy'n cynnwys holiaduron i ddarpar fyfyrwyr / myfyrwyr sydd newydd gofrestru o farchnadoedd â blaenoriaeth

Amcan y gwerthusiad	Is-gwestiynau	Dangosyddion	Dulliau / Ffynonellau Data
	• Yn seiliedig ar effaith gyffredinol, amcangyfrifedig Cymru Fyd-eang (Cam 3) – o ystyried yr effeithiau hynny y gellir rhoi gwerth y farchnad arnynt a'r rhai na ellir – o gymharu â chost gyffredinol cynnal y rhaglen, i ba raddau y mae Cymru Fyd-eang (Cam 3) yn cynrychioli gwerth am arian?	Nghymru wedi chwarae rhan bwysig wrth ddylanwadu ar eu penderfyniad i astudio yng Nghymru • Barn ac argraff rhanddeiliaid bod gwell cystadleurwydd/ymwybyddiaeth am Gymru fel cyrchfan astudio • Barn ac argraff rhanddeiliaid ar rôl CFIII wrth gynyddu recriwtio myfyrwyr • Nifer sy'n cael ysgoloriaethau CFIII • Profiad y cyfranogwyr sy'n cael ysgoloriaethau CFIII. **Meithrin a chynnal partneriaethau mewn marchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth** • Nifer y prosiectau ymchwil newydd mewn marchnadoedd â blaenoriaeth • Nifer y prosiectau cydweithredol newydd mewn marchnadoedd â blaenoriaeth • Nifer yr allbynnau ymchwil o gydweithrediadau mewn marchnadoedd â blaenoriaeth • Partneriaethau / ymgysylltu â systemau yn helpu i gael gafael ar gyllid ychwanegol (£) • Nifer y prosiectau sbarduno a ariannwyd sy'n datblygu yn wasanaethau tymor hwy • Barn ac argraff rhanddeiliaid ar werth a grëwyd o ganlyniad i bartneriaethau newydd • Effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wedi'u creu sy'n benodol i'r prosiect.	• Adolygu data gwybodaeth rheoli'r rhaglen • Ymgynghoriadau â phartneriaid / buddiolwyr.

Amcan y gwerthusiad	Is-gwestiynau	Dangosyddion	Dulliau / Ffynonellau Data
		Cynhyrchu enillion allforio ychwanegol i Gymru o farchnadoedd â blaenoriaeth • Twf yn incwm prifysgolion o ganlyniad i fyfyrwyr rhyngwladol o farchnadoedd â blaenoriaeth • Twf mewn allforion o ganlyniad i bartneriaethau/prosiectau a ariannwyd drwy Cymru Fyd-eang III • Barn rhanddeiliaid ar rôl CFIII mewn unrhyw gynnydd mewn refeniw. **Cynyddu ymwybyddiaeth ac enw da prifysgolion a cholegau addysg bellach Cymru mewn marchnadoedd â blaenoriaeth** • Cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cofrestru mewn sefydliadau AB/AU yng Nghymru • Ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan astudio ymhlith darpar fyfyrwyr mewn marchnadoedd targed • Canfyddiadau ar argraff rhanddeiliaid ar rôl Cymru Fyd-eang III yn cynyddu ymwybyddiaeth am AU/AB Cymru a'u henw da.	



Casgliadau ac Argymhellion

Cynllunio'r gwerthusiad

Er bod ein hadolygiad o'r data monitro yn dangos bod Cymru Fyd-eang ar y cyfan wedi bod yn effeithiol wrth gasglu data am allbynnau, rydym wedi gwneud sawl argymhelliad i gryfhau dull gweithredu'r rhaglen wrth symud ymlaen, gan gynnig cyfanswm o 17 argymhelliad ar gyfer y rhaglen.

Argymhelliad 1

Dylai tîm Cymru Fyd-eang III adolygu'r rhestr hir o argymhellion sy'n rhan o'n hadolygiad monitro a mynd ati i weithredu'r gwelliannau lle bo modd.

Perfformiad cyflawni

Er mai'r prif bwyslais ar y cam cychwynnol hwn oedd cynllunio'r gwerthusiad, roeddem hefyd wedi sylwi ar rai themâu yn codi o'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a'r adolygiad monitro i fedru llunio asesiad cychwynnol o'r perfformiad cyflawni.

Mae'r rhaglen wedi perfformio'n dda yn erbyn ei thargedau Dangosyddion Perfformio Allweddol ac mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu ei bod wedi cynhyrchu elw cadarnhaol ar fuddsoddiad. Yn yr un modd, er eu bod yn gadarnhaol ar y cyfan, tynnodd rhanddeiliaid sylw at rai meysydd i'w gwella. Bydd angen ymchwilio'n fanylach i gwestiynau ynghylch gwerth ychwanegol y rhaglen a'i chyfatebiaeth â sefydliadau eraill yn ystod y cyfnod interim, yn enwedig o ran barn sefydliadau AU ac AB ar y gwerth canfyddedig a geir o'r rhaglen.

Datgelodd y gwerthusiad cychwynnol fod rhywfaint o gamddealltwriaeth i'w weld ymhlith rhanddeiliaid ynghylch rôl y rhaglen mewn perthynas ag Astudio yng Nghymru ac o ran rhai o'r gwahaniaethau â chyrff eraill megis partneriaeth Cymru Fyd-eang. Rydym hefyd yn nodi bod y rhaglen wedi comisiynu ymchwil a esgorodd ar ganfyddiadau calonogol am y canlyniadau a gyflawnwyd, ac eto nid oedd rhanddeiliaid fel petaent yn ymwybodol o'r rhain (er y gwelwn fod tîm y rhaglen wedi dosbarthu'r adroddiadau i Fwrdd Cymru Fyd-eang a grwpiau eraill).

Argymhelliad 2

Dylai tîm Cymru Fyd-eang III sicrhau bod y gwerth ychwanegol y mae'n ei gyflawni yn cael ei gyfathrebu'n glir â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gael cefnogaeth wrth symud ymlaen.

Amrywio'n fawr oedd y farn a'r argraff ynghylch effeithiolrwydd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda rhai o'r farn fod y rhaglen wedi bod yn effeithiol o ran cyfathrebu a chydweithio, tra bod eraill yn nodi nad oedd wedi ymgysylltu'n effeithiol o gwbl. Gyda'i gilydd, awgryma'r canfyddiadau hyn fod angen cryfhau'r cyfathrebu a mynd ati i egluro rôl pob partner, gydag un yn awgrymu y byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn fuddiol. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu y gallai ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid fod yn fwy cyson.

Argymhelliad 3

Dylai tîm Cymru Fyd-eang III ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n darparu gweithgareddau tebyg i gytuno ar ffiniau clir a thrwy hynny sicrhau integreiddio a chydgysylltu cryfach. Fel rhan o hyn, dylai'r tîm ystyried datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r partneriaid hynny.

Bu pryderon ymysg rhai rhanddeiliaid AB allweddol ynghylch cynnwys eu sector yn y rhaglen a lefel y ffocws ar eu hanghenion, gan fod ag awydd cael mwy o ddylanwad dros waith a chyfeiriad strategol y rhaglen. Er bod y rhaglen wedi cymryd camau yn hyn o beth e.e. sicrhau bod y sector yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd a bod ganddi adnoddau a strategaeth bwrpasol sy'n canolbwyntio ar AB, maent wedi'i chael yn anodd bodloni disgwyliadau'r rhanddeiliaid AB hyn.

Argymhelliad 4

Dylai tîm Cymru Fyd-eang III ystyried a ellir cymryd unrhyw gamau pellach i sicrhau bod gan y sector AB fwy o fewnbwn yn ymwneud â chynnal y rhaglen, ynghyd â'i chyfeiriad strategol drwy gydgynhyrchu.

Yn olaf, y brif her o bell ffordd i Cymru Fyd-eang III fu darparu ar gyfer y gofynion monitro ac adrodd a osodwyd gan Taith. Maent o'r farn fod hyn wedi mynd â chryn dipyn o amser oddi wrth y tîm ac wedi achosi rhai problemau sylweddol.

Argymhelliad 5

Dylai Taith ystyried a ellir cymryd unrhyw gamau i symleiddio'r gofynion monitro ac adrodd, ar yr un pryd â chadw lefel y craffu y gofynnir amdano gan Lywodraeth Cymru. Dylai Cymru Fyd-eang III ystyried a oes modd cymryd camau i greu prosesau mwy effeithlon a allai helpu i ysgafnhau'r pwysau a roddir arnynt.

Cysylltwch â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol

@wavehilltweets

wavehill